

2011 Rhif 39

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddiadau Gwaed a
Thrawsblaniadau'r GIG (NHS
Blood and Transplant) (Cymru)
(Diwygio) 2011

Gwnaed 2011
Yn dod i rym 21 Hydref 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 23(1), 24(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn—

Cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 21 Hydref 2011.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—
ystyr “y Prif Gyfarwyddiadau” (“*the Principal Directions*”) yw Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r Prif Gyfarwyddiadau.

Mewnosod paragraff 2B yn y Prif Gyfarwyddiadau

2. Ar ôl paragraff 2A (trosglwyddo'r labordy bio gynhyrchion) o'r Prif Gyfarwyddiadau, mewnosoder—

2011 No. 39

**NATIONAL HEALTH
SERVICE (WALES) ACT 2006**

NHS BLOOD AND
TRANSPLANT (GWAED A
THRAWSBLANIADAU'R GIG)
(WALES) (AMENDMENT)
DIRECTIONS 2011

Made 2011
Coming into force 21 October 2011

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 23(1), 24(1) and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(1) hereby give the following Directions—

Commencement, application and interpretation

1.—(1) These Directions come into force on 21 October 2011.

(2) These Directions apply in relation to Wales.

(3) In these Directions—

“the Principal Directions” (“*y Prif Gyfarwyddiadau*”) means the NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) (Wales) Directions 2005.

(4) These Directions amend the Principal Directions.

Insertion of paragraph 2B in the Principal Directions

2. After paragraph 2A (transfer of the bio products laboratory) of the Principal Directions insert—

“Gwerthu cynhyrchion gwaed

2B.—(1) Pan fo arfer y swyddogaethau o dan baragraff 2(2) yn darparu cydrannau gwaed, cynhyrchion gwaed neu blasma, ac eithrio gwaed cyfan, nad oes eu hangen at ddibenion y gwasanaeth iechyd (“deunydd dros ben”), yna, ac eithrio yn yr amgylchiadau a bennir yn is-baragraffau (2) a (3), rhaid i GTGIG ystyried gwerthu'r sylweddau hynny os yw'n rhesymol gwneud hynny, gan roi sylw i'r canlynol, yn ogystal â rhoi sylw i unrhyw ganllawiau y cyfeirir atynt ym mharagraff 7—

- (a) y risgiau i GTGIG a'r gwasanaeth iechyd, yn ariannol, yn weithredol ac o ran enw da; a
- (b) canllawiau perthnasol a ddyroddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

(2) Rhaid i GTGIG beidio ag ystyried gwerthu deunydd dros ben o dan is-baragraff (1) os diben y gwerthiant fyddai cyflenwi unrhyw beth y gellid—

- (a) ei roi i berson;
- (b) ei ddefnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu cynnyrch y gellid ei roi i berson; neu
- (c) ei ddefnyddio fel ychwanegyn mewn cyfrwng meithrin meinweoedd.

(3) Rhaid i GTGIG beidio ag ystyried gwerthu deunydd dros ben o dan is-baragraff (1) oni fyddai unrhyw elw o'r gwerthiant yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y gwasanaeth iechyd.

(4) Rhaid i GTGIG gwblhau ei ystyriaeth o'r materion a bennir yn is-baragraffau (1) i (3) cyn gwerthu deunydd dros ben.

(5) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i gyflenwadau (pa un ai drwy werthiant neu fel arall) sydd at ddibenion y gwasanaeth iechyd.”.

“Sale of blood products

2B.—(1) Where the exercise of the functions under paragraph 2(2) gives rise to blood components, blood products or plasma, other than whole blood which are not needed for the purposes of the health service (“surplus material”), then, except in the circumstances specified in sub-paragraphs (2) and (3), NHSBT will consider selling those substances if it is reasonable to do so having regard, in addition to having regard to any guidance referred to in paragraph 7, to—

- (a) financial, operational and reputational risks to NHSBT and the health service; and
- (b) relevant guidance issued by Her Majesty's Treasury.


(2) NHSBT will not consider the sale of surplus material under sub-paragraph (1) where the purpose of the sale would be to supply anything which might be—

- (a) administered to a person;
- (b) used in the manufacture of a product which might be administered to a person; or
- (c) used as a supplement to a tissue culture medium.

(3) NHSBT will not consider the sale of surplus material under sub-paragraph (1) unless any profit from the sale would be used for the purposes of the health service.


(4) NHSBT will complete its consideration of the matters specified in sub-paragraphs (1) to (3) before it sells surplus material.

(5) This paragraph does not apply to supplies (whether by way of sale or otherwise) for the purposes of the health service.”.


Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o
Weinidogion Cymru

Dyddiad

17th October, 2011


Lesley Griffiths AM
Minister for Health and Social Services, one of the Welsh
Ministers

Date

17th October, 2011